Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

—

Public Accounts and Public Administration Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565

—

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Spencer Birns – Prif Swyddog Gweithredol, Maes Awyr Caerdydd
Wayne Harvey – Cadeirydd, Maes Awyr Caerdydd
David Walters – Prif Swyddog Ariannol, Maes Awyr Caerdydd

10 Mawrth 2022

Annwyl syriaid,

Maes Awyr Caerdydd

Diolch am eich llythyr ar 7 Ionawr ac am ymateb i'r cwestiwn a ofynnwyd i Lywodraeth Cymru ynghylch talu unrhyw daliadau bonws i uwch-swyddogion gweithredol yn dilyn y newid mewn perchnogaeth yn 2013.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr ymatebion hyn yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr. Roeddem yn synnu na wnaethoch ddarparu'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani yn fy llythyr ar 18 Tachwedd 2021. Yn benodol, ni wnaethoch roi manylion am y meysydd a ganlyn, gan ddweud eu bod yn fasnachol-gyfrinachol:

- Gwnaethoch gytuno i ddweud wrthym yn ysgrifenedig sut y bydd y cyllid grant o £16 miliwn ar gyfer 2021-22 yn cael ei ddefnyddio, ac i ba raddau y bydd yn talu am refeniw a gollir yn 2021-22 yn ogystal â chostau gweithgareddau eraill.
- Cytunwyd hefyd i rannu gwybodaeth am y cerrig milltir a'r dangosyddion perfformiad a bennwyd i chi eu cyrraedd dros y pum mlynedd hyd at 2026, fel y'u manylir yn y Cynllun Achub ac Ailstrwythuro

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd 2021, codwyd y materion hyn gyda chi ac rwy'n gwerthfawrogi nad oeddech yn dymuno datgelu manylion masnachol mewn sesiwn gyhoeddus. Fodd bynnag, dywedodd Mr Walters y byddai'n fodlon gwneud hynny mewn sesiwn breifat (paragraffau 80 a 91 o Gofnod y Trafodion).

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu bod y Pwyllgor yn dymuno cael y wybodaeth hon gennych, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am weithrediad y Maes Awyr yn ystod tymor yr haf. Cynigiaf ein bod yn cynnal sesiwn breifat fel y gallwch ddatgelu a thrafod y wybodaeth yr ydych yn ei hystyried yn ddata masnachol-gyfrinachol, ac yna sesiwn gyhoeddus i gael y wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch presennol y Maes Awyr.

Bydd Clerc y Pwyllgor yn cysylltu â chi i wneud y trefniadau terfynol ar gyfer y sesiwn dystiolaeth (dyddiad i'w gadarnhau), ond byddem yn falch pe gallech ymateb erbyn 31 Mawrth yn cadarnhau y byddwch yn bresennol ac y byddwch yn datgelu'r wybodaeth uchod fel yr awgrymaf.

Yn gywir



Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor